

CAETHWASIAETH FODERN A MASNACHU

Mae masnachu yn golygu:

- Cludo pobl i ffwrdd o'u cymunedau, oherwydd y bygythiad neu'r defnydd o drais, twyll, neu orfodi er mwyn iddynt gael eu hecsbloetio.
- Unwaith y bydd rheolaeth gychwynnol wedi'i sicrhau, caiff dioddefwyr eu symud i le lle mae marchnad ar gyfer eu gwasanaethau, yn aml lle nad oes ganddynt y wybodaeth sylfaenol a fyddai'n eu galluogi i ofyn am gymorth.



Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys masnachu, ond hefyd yn cwmpasu:

- Achosion o ecsbloetio rhywiol, gorfodi llafur corfforol,
- Priodas ffug, gweini domestig a chynaeafu organau.



Efallai na fydd rhai yn dioddef masnachu mewn pobl, ond eu bod yn dal i ddioddef caethwasiaeth fodern. Gall dioddefwyr ddod o bob math o gefndiroedd.

Mae masnachu a chaethwasiaeth fodern yn droseddau difrifol a brwnt lle mae oedolion a phlant yn cael eu trin fel nwyddau ac yn cael eu hecsbloetio er budd troseddol. Gall pobl gael eu gorfodi i weithio trwy fygythiad meddyliol neu gorfforol; eu prynu a'u gwerthu fel 'eiddo'; wedi'u rhwystro'n gorfforol neu â chyfyngiadau ar eu rhyddid.

Gall dioddefwyr:

- Fod yn amharod i gyflwyno gwybodaeth
- beidio â chydabod eu hunain fel rhai sydd wedi cael eu dal yn gaeth
- ddweud storïau â gwallau amlwg (gan fod eu straeon yn aml yn cael eu llunio gan bobl eraill a'u dysgu).

Dangosyddion:

- Gall dioddefwyr ymddangos fel eu bod gyda diffyg maeth neu'n dangos arwyddion o gleisiau, anafiadau eraill, efallai bydd eu hymddangosiad yn flêr ac efallai y byddant wedi eu hynysu oddi wrth pobl y gymuned leol sy'n gweithio ac yn byw yn yr un lle.
- Tatwau sy'n dynodi perchenogaeth.



Mae'r mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn broses adnabod a chefnogi dioddefwyr. Fe'i cynlluniwyd i'w gwneud yn haws i'r holl asiantaethau gwahanol a allai fod yn rhan o achos masnachu i gydweithredu, rhannu gwybodaeth am ddioddefwyr posibl a hwyluso eu mynediad i gyngor, llety a chymorth.

Mae dyletswydd ar ymatebwyr cyntaf megis awdurdodau lleol a'r heddlu i lenwi'r Ffurflen Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) ym mhob achos o amheuaeth o fasnachu.

Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern 0800 0121 700

<http://www.bwrddiogelugogleddcymru.cymru/>